# Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

**2011 mccc 1**

## RHAN 5

GORFODI SAFONAU

## PENNOD 1

YMCHWILIO I FETHIANT I GYDYMFFURFIO Â SAFONAU ETC

*Methiant i gydymffurfio: opsiynau'r Comisiynydd*

### 77 Methiant i gydymffurfio â gofyniad perthnasol

(1) Mae'r adran hon yn gymwys os yw'r Comisiynydd yn dyfarnu bod D wedi methu â chydymffurfio â gofyniad perthnasol.

(2) Caiff y Comisiynydd—

(a) beidio â gweithredu ymhellach,

(b) gweithredu o dan is-adran (3), neu

(c) gweithredu o dan is-adran (4).

(3) Caiff y Comisiynydd wneud un neu ragor o'r pethau a ganlyn—

(a) ei gwneud yn ofynnol i D baratoi cynllun gweithredu at y diben o atal methiant D i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol rhag parhau neu gael ei ailadrodd;

(b) ei gwneud yn ofynnol i D gymryd camau at y diben o atal methiant D i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol rhag parhau neu gael ei ailadrodd;

(c) rhoi cyhoeddusrwydd i fethiant D i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol;

(d) ei gwneud yn ofynnol i D roi cyhoeddusrwydd i'r methiant i gydymffurfio â'r gofyniad perthnasol;

(e) gosod cosb sifil ar D.

(4) Caiff y Comisiynydd wneud un neu ragor o'r pethau a ganlyn—

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Adran 77. (See end of Document for details)*

(a) rhoi argymhellion i D neu i unrhyw berson arall;

(b) rhoi cyngor i D neu i unrhyw berson arall;

(c) ceisio ymrwymo mewn cytundeb setlo gyda D (gweler Pennod 2), ond dim ond os dyletswydd i gydymffurfio â safon yw'r gofyniad perthnasol.

(5) Os yw'r Comisiynydd yn ceisio ymrwymo mewn cytundeb setlo gyda D—

(a) nid oes gorfodaeth ar D i ymrwymo yn y cytundeb hwnnw;

(b) os yw D yn gwrthod ymrwymo mewn cytundeb setlo, caiff y Comisiynydd arfer ei bwerau o dan yr adran hon mewn modd gwahanol, ond nid oes angen iddo wneud hynny.

(6) Os yw'r Comisiynydd yn gweithredu o dan is-adran (3), nid yw is-adrannau (2) a (3) yn atal y Comisiynydd rhag gwneud hefyd y naill neu'r llall neu'r naill a'r llall o'r canlynol—

(a) rhoi argymhellion i D neu i unrhyw berson arall;

(b) rhoi cyngor i D neu i unrhyw berson arall.

(7) Mae'r adran hon yn ddarostyngedig i adran 85.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 77 ddim mewn grym ar Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 156(2)**

**I2** A. 77 mewn grym ar 7.7.2015 gan O.S. 2015/1413, **ergl. 3(c)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Adran 77.